Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

RHEOLWR IECHYD, DIOGELWCH A LLES

GRADD 16: CYFLOG: £47,754 - £48,710 (y flwyddyn)
37 AWR YR WYTHNOS
Rhif Swydd 502884
PARHAOL

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn yr Adran Rheoli Risg Weithredol ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant ar gyfer rôl Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am arwain Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles proffesiynol sy'n darparu cyngor iechyd, diogelwch a lles arbenigol cywir gan gynnwys cymorth ymarferol ar bob agwedd ar reoli iechyd a diogelwch o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynghori Comisiynwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, rheolwyr a gweithwyr yn effeithiol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol ac i ddatblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol ar draws y sefydliad cyfan.

Bydd y rôl yn cynnwys rheoli ein tîm Iechyd, Diogelwch a Lles. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus felly yn gyfrifol am gyflawni'r holl ddyletswyddau rheoli llinell sy'n ymwneud â'r tîm, gan gynnwys cynnal Adolygiadau Datblygu Perfformiad, rheoli perfformiad, rheoli gweithgareddau i ddatrys materion gweithredol a dydd i ddydd a gweithredu fel mentor i staff.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr gyda:

- Profiad o weithio o fewn amgylchedd iechyd a diogelwch neu rôl debyg.

Cyn y gwneir penodiad, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â'r canlynol:

- Prawf Cyffuriau ac Alcohol
- Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Ceir manylion llawn y rôl yn y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person ond os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â Rheolwr Gorsaf David Cottrell drwy law e-bost d-cottrell@decymru-tan.gov.uk.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd, ac mae system gweithio hyblyg ar waith. I weld manteision gweithio gyda ni, ewch i:www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/buddion.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr â phrofiad addas fel yr amlinellir yn y Manyleb Person. Sylwch fod hon yn broses hynod gystadleuol a dim ond y rhai sydd wedi dangos tystiolaeth lawn yn erbyn yr holl feini prawf hanfodol yn y fanyleb person fydd yn mynd ymlaen i'r Broses Ddethol.
D.S. Dylid dangos tystiolaeth o hyn yn y datganiad personol.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00 canol dydd 12/02/2025**. Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan:www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddara. Os bydd angen fersiwn bapur arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu drwy law e-bost: personel@decymru-tan.gov.uk. Dylai'r holl ymgeiswyr mewnol sy'n ymgeisio wneud cais trwy law eu pyrth, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus ar y cam Llunio'r Rhestr Fer yn cael y cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar, a chwestiynau cyfweliad). Bydd trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gall gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae GTADC yn credu yng ngwir werth cael gweithlu amrywiol ac rydym am annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG